

PWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD MAWRTH, 3 MEDI 2019

Yn Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Sattar, Goddard, Lancaster a/ac Wood

10 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ashgar Ali, Derbyshire, Ford a Jacobsen.

11 : PENODI CADEIRYDD, DIRPRWY GADEIRYDD AC AELODAU'R PWYLLGOR

Nododd y Pwyllgor i'r Cyngor benodi Norma Mackie yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Abdul Sattar yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor ar 23 Mai.

Penodwyd yr Aelodau canlynol:

Y Cynghorwyr Ashgar Ali, Bowen-Thompson, Derbyshire, Ford, Goddard, Jacobsen, Kelloway, Lancaster a Wood.

12 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.

13 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

14 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2018 yn gofnod cywir gan y Pwyllgor a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

15 : ADOLYGU POLISI'R DDEDDF DRWYDDED

Adolygir Datganiad y Polisi Trwydded bob 5 mlynedd. Adolygwyd y Datganiad ddiwethaf yn 2016 a disgwylir iddo gael ei adolygu ym mis Ionawr 2022. Fodd bynnag, cyflwynodd Deddf yr Heddlu a Throsedd 2017 Asesiadau o'r Effaith Gronnol ym mis Ebrill 2018. Dylai Asesiadau gael eu cyhoeddi ar wahân ac maent wedi'u crynhoi yn y Datganiad. Mae canllawiau Swyddfa Gartref yn gofyn bod Asesiadau'n cael eu hadolygu bob 3 blynedd. Felly mae'n angenrheidiol adolygu'r Datganiad a chyhoeddi Asesiad ar wahân.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a gofynnwyd i'r aelodau ystyried cymeradwyo'r Datganiad a'r Asesiad drafft er mwyn cynnal ymgynghoriad arnynt â'r ymgynghoreion a restrir yn yr adroddiad. Hefyd gwnaethpwyd sawl mân newid gweinyddol i'r Datganiad yn bennaf yn ymwneud â newidiadau i adloniant nas rheoleiddir, cyflwyno gwiriadau 'hawl i weithio' a chyflwyno'r Swyddfa Gartref yn awdurdod cyfrifol.

O ran yr Asesiad, dywedwyd wrth yr aelodau y cynhaliwyd adolygiad eang o'r polisi cyfredol gan Heddlu De Cymru. Yn ôl yr adolygiad, mae dal llawer o drosedd ac anhrefn trwy ganol y ddinas sy'n gysylltiedig â phresenoldeb safleoedd trwyddedig. Awgrymodd tystiolaeth fod gweithgareddau trwyddedadwy yn cyfrannu at broblemau trosedd ac anhrefn. Yn ogystal â'r data ystadegol a ffurfiodd ran o'r sail dystiolaeth, yn rhan o'r adolygiad o'r polisi, roedd adolygiad o dystiolaeth fideo a ddangosodd y problemau yng Nghanol y Ddinas y gellir eu priodoli i weithgareddau trwyddedadwy. Cynigiwyd peidio â newid unrhyw beth yn yr ardal neu i'r ffordd mae'r polisi effaith gronnol cyfredol yn cael ei weithredu.

Rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor weld detholiad o'r dystiolaeth fideo a ystyriwyd yn ystod y broses adolygu.

PENDERFYNWYD – Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo Datganiad drafft y Polisi Trwydded a'r Asesiad drafft o'r Effaith Gronnol i ymgynghori arnynt â'r rheiny a restrir ym mharagraff 1.2 yr adroddiad.

16 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau brys.

17 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.25 am